# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Medi 3ydd 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas, Gwenda Morris, Bethan Thomas, Maldwyn Jones a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 2il 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd

## iv) Gohebiaeth

a) Cynlluniau Ffermydd Gwynt.
i) Fferm Wynt Gaerwen - Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio.
**Trafodwyd yr hyn a welwyd yn y diwrnodau agored yn ddiweddar a'r llythyrau a dderbyniwyd gan drigolion lleol. Cytunwyd yn unfrydol i grynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd a'u cyflwyno i RWE.**
ii) Fferm Wynt Foel Fach - datblygiad ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig.

b) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Trafnidiaeth Gymunedol – cais am lythyr o gefnogaeth. **Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth.**

c) Cyngor Gwynedd.
i) Cadarnhau cyfarwyddwyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy.
iii) Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd.
iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd

ch) Un Llais Cymru.
i) Canllaw ar rymoedd a pholisïau.
ii) Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 Mis.

d) Amrywiol.
i) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala, 1/9/24.
ii) Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Dweud eich dweud ar sut mae eich cymdogaeth yn cael ei phlismona.
iii) Cofeb Tryweryn – diweddariad.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

i) C24/0543/04/AC – Amrywio amod 2 ar ganiatad cynllunio C24/0061/04/DT. Capel Soar, Maerdy.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

## vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniadau – ail randal y Praesept - £4,500.
b) Taliadau – **Cytunwyd i dalu** Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd), Cyngor Gwynedd (archwilio cyfrifon 2023/24)
c) Ceisiadau Ariannol – Cerebal Palsy Cymru a Chlwb Hoci Bala. **Cytunwyd i gyfrannu £100 i Glwb Hoci'r Bala rwan ac i gadw cais gyda gweddill o'r ceisiadau a'r trafod ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 1af YN NEUADD MYNACH.**